OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 315 (Cy. 80)

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## Gorchymyn Senedd Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2021

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn cynnwys y cyfansymiau mwyaf y caiff swyddog canlyniadau eu hadennill am wasanaethau a ddarperir a threuliau yr eir iddynt ar gyfer cynnal etholiad Senedd Cymru neu mewn cysylltiad â hynny. Mae'r Gorchymyn hwn yn disodli ac yn dirymu Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2016 (O.S. 2016/417) (Cy. 133).

Mae etholiad Senedd Cymru i'w gynnal ar yr un diwrnod ag etholiad y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu. Felly, mae'r holl symiau wedi cymryd i ystyriaeth y darpariaethau a geir yn erthygl 16A o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (O.S. 2007/236) (fel y'i mewnosodwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/272)), sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r symiau hyn gael eu rhannu'n gyfartal rhwng etholiad Senedd Cymru ac etholiad y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu.

Mae erthyglau 4, 5 a 6 o'r Gorchymyn hwn yn pennu'r cyfansymiau mwyaf am wasanaethau a ddarperir a threuliau yr eir iddynt ar gyfer etholiad etholaethol a ymleddir neu mewn cysylltiad ag etholiad o'r fath. Mae'r swm sy'n adenilladwy am wasanaethau a ddarperir yn ymwneud â gweinyddu etholiadol a chyflawni dyletswyddau mewn perthynas â'r etholiad gan swyddogion canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol. Mae'r treuliau yr eir iddynt yn gwahaniaethu rhwng treuliau safonol a threuliau sy'n ymwneud â'r coronafeirws. Mae'r symiau wedi eu rhestru yn y tabl yn Atodlen 1.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2021 No. 315 (W. 80)

# REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

## The Senedd Cymru (Returning Officers' Charges) Order 2021

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order contains the maximum amounts a returning officer may recover for services rendered and expenses incurred for, or in connection with, the conduct of the Senedd Cymru election. This Order replaces and revokes the National Assembly for Wales (Returning Officers' Charges) Order 2016 (S.I. 2016/417) (W. 133).

The Senedd Cymru election is to be held on the same day as the election of Police and Crime Commissioners. Therefore all amounts have taken into account the provisions contained in article 16A of the National Assembly for Wales (Representation of the People) Order 2007 (S.I. 2007/236) (as inserted by the National Assembly for Wales (Representation of the People) (Amendment) Order 2016 (S.I. 2016/272)), which requires these amounts to be apportioned equally between the Senedd Cymru election and the election of Police and Crime Commissioners.

Articles 4, 5 and 6 of this Order specify the maximum amounts for services rendered and expenses incurred for, or in connection with, a contested constituency election. The amount recoverable for services rendered is concerned with electoral administration and the discharge of duties relating to the election by returning officers and electoral administrators. Expenses incurred differentiate between standard expenses and coronavirus related expenses. The amounts are listed in the table in Schedule 1.

Mae erthyglau 7, 8 a 9 yn pennu'r cyfansymiau mwyaf am wasanaethau a ddarperir a threuliau yr eir iddynt ar gyfer etholiad rhanbarthol a ymleddir neu mewn cysylltiad ag etholiad o'r fath. Mae'r symiau wedi eu rhestru yn y tabl yn Atodlen 2.

Mae erthygl 10 yn pennu'r cyfanswm mwyaf am etholiad etholaethol nas ymleddir, tra bo erthygl 11 yn pennu'r cyfanswm mwyaf am etholiad rhanbarthol nas ymleddir.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cym.

Articles 7, 8 and 9 specify the maximum amounts for services rendered and expenses incurred for, or in connection with, a contested regional election. The amounts are listed in the table in Schedule 2.

Article 10 specifies the maximum amount for an uncontested constituency election, whereas article 11 specifies the maximum amount for an uncontested regional election.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with this Order. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and on the Welsh Government's website at www.gov.wales.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 315 (Cy. 80)

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## Gorchymyn Senedd Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *12 Mawrth 2021* |
| *Yn dod i rym* | *19 Mawrth 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan erthygl 23(1D), (2) a (6) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Senedd Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2021.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Mawrth 2021.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "coronafeirws" ("*coronavirus*") yw coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2);

mae "etholaethau'r Senedd" ("*Senedd constituencies*") i'w ddehongli yn unol ag adran 2(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**2**);

(**1**) O.S. 2007/236, a ddiwygiwyd gan O.S. 2009/1182; O.S. 2010/1142 (Cy. 101); O.S. 2010/2931; O.S. 2011/1441; O.S. 2011/2085; O.S. 2012/1479; O.S. 2013/388; O.S. 2013/591; O.S. 2015/664; O.S. 2016/272; O.S. 2016/292; adran 3 o Ddeddf Cymru 2014 (p. 29); adran 27 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1) ac O.S. 2020/1558 (Cy. 329).

(**2**) 2006 p. 32; diwygiwyd adran 2 gan Ddeddf y System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 (p. 1) a Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2021 No. 315 (W. 80)

# REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

## The Senedd Cymru (Returning Officers' Charges) Order 2021

| | |
|---|---|
| *Made* | *12 March 2021* |
| *Coming into force* | *19 March 2021* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by article 23(1D), (2) and (6) of the National Assembly for Wales (Representation of the People) Order 2007(**1**), make the following Order.

**Title and commencement**

**1.**—(1) The title of this Order is the Senedd Cymru (Returning Officers' Charges) Order 2021.

(2) This Order comes into force on 19 March 2021.

**Interpretation**

**2.** In this Order—

"coronavirus" ("*coronafeirws*") means severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2);

"Senedd constituencies" ("*etholaethau'r Senedd*") are to be construed in accordance with section 2(1) of the Government of Wales Act 2006(**2**);

(**1**) S.I. 2007/236, amended by S.I. 2009/1182; S.I. 2010/1142 (W. 101); S.I. 2010/2931; S.I. 2011/1441; S.I. 2011/2085; S.I. 2012/1479; S.I. 2013/388; S.I. 2013/591; S.I. 2015/664; S.I. 2016/272; S.I. 2016/292; section 3 of the Wales Act 2014 (c. 29); section 27 of the Senedd and Elections (Wales) Act 2020 (anaw 1) and S.I. 2020/1558 (W. 329).

(**2**) 2006 c. 32; section 2 was amended by the Parliamentary Voting System and Constituencies Act 2011 (c. 1) and the Senedd and Elections (Wales) Act 2020.

mae “rhanbarthau etholiadol y Senedd” (“*Senedd electoral regions*”) i’w ddehongli yn unol ag adran 2(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Dirymu**

**3.** Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2016(**1**) wedi ei ddirymu.

**Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy’n adenilladwy am etholiad etholaethol i’r Senedd a ymleddir**

**4.** Y cyfanswm cyffredinol mwyaf y caiff swyddog canlyniadau etholaethol ei adennill am wasanaethau a ddarperir a threuliau yr eir iddynt ar gyfer etholiad etholaethol i’r Senedd a ymleddir, neu mewn cysylltiad ag etholiad o’r fath, yw’r swm a restrir yng ngholofn 4 o’r tabl yn Atodlen 1.

**Y cyfanswm mwyaf sy’n adenilladwy am wasanaethau a ddarperir mewn etholiad etholaethol i’r Senedd a ymleddir**

**5.**—(1) Ni chaiff y cyfanswm y caiff swyddog canlyniadau etholaethol ei adennill am wasanaethau a ddarperir ar gyfer etholiad etholaethol i’r Senedd a ymleddir, neu mewn cysylltiad ag etholiad o’r fath, fod yn fwy na’r swm a restrir ar gyfer pob etholaeth yng ngholofn 2 o’r tabl yn Atodlen 1.

(2) Rhaid i unrhyw wasanaethau a ddarperir fod ar gyfer y canlynol neu mewn cysylltiad â’r canlynol—

(a) gwneud trefniadau ar gyfer yr etholiad;

(b) cynnal yr etholiad;

(c) cyflawni holl ddyletswyddau’r swyddog canlyniadau etholaethol a’r gweinyddwr etholiadol mewn cysylltiad â’r etholiad.

**Y cyfanswm mwyaf sy’n adenilladwy am dreuliau yr eir iddynt mewn etholiad etholaethol i’r Senedd a ymleddir**

**6.**—(1) Ni chaiff y cyfanswm y caiff swyddog canlyniadau etholaethol ei adennill am dreuliau yr eir iddynt ar gyfer etholiad etholaethol i’r Senedd a ymleddir, neu mewn cysylltiad ag etholiad o’r fath, fod yn fwy na’r canlynol—

(a) swm cyfanredol colofn 3(a) a (b) yn y tabl yn Atodlen 1;

(b) mewn cysylltiad â threuliau safonol yn unig, y cyfanswm yng ngholofn 3(a) yn y tabl yn Atodlen 1;

(**1**) O.S. 2016/417 (Cy. 133).

“Senedd electoral regions” (“*rhanbarthau etholiadol y Senedd*”) are to be construed in accordance with section 2(3) of the Government of Wales Act 2006.

**Revocation**

**3.** The National Assembly for Wales (Returning Officers’ Charges) Order 2016(**1**) is revoked.

**Overall maximum recoverable amount for a contested Senedd constituency election**

**4.** The overall maximum amount a constituency returning officer may recover for services rendered and expenses incurred for, or in connection with, a contested Senedd constituency election is the amount listed in column 4 of the table in Schedule 1.

**Maximum recoverable amount for services rendered at a contested Senedd constituency election**

**5.**—(1) The total amount a constituency returning officer may recover for services rendered for, or in connection with, a contested Senedd constituency election must not exceed the amount listed for each constituency in column 2 of the table in Schedule 1.

(2) Any services rendered must be for, or in connection with—

(a) making arrangements for the election;

(b) conducting the election;

(c) discharging all of the constituency returning officer’s and electoral administrator’s duties in respect of the election.

**Maximum recoverable amount for expenses incurred at a contested Senedd constituency election**

**6.**—(1) The total amount a constituency returning officer may recover for expenses incurred for, or in connection with, a contested Senedd constituency election must not exceed—

(a) the aggregate amount of column 3(a) and (b) in the table in Schedule 1;

(b) in respect of standard expenses only, the total amount in column 3(a) in the table in Schedule 1;

(**1**) S.I. 2016/417 (W. 133).

(c) mewn cysylltiad â threuliau'r coronafeirws yn unig, y cyfanswm yng ngholofn 3(b) yn y tabl yn Atodlen 1.

(2) Caiff swyddog canlyniadau adennill treuliau safonol yr eir iddynt ar gyfer y canlynol neu mewn cysylltiad â'r canlynol—

(a) penodi a thalu personau i gynorthwyo'r swyddog canlyniadau etholaethol;

(b) treuliau teithio a chynhaliaeth dros nos y swyddog canlyniadau etholaethol ac unrhyw berson a benodir i gynorthwyo'r swyddog canlyniadau etholaethol;

(c) costau'r broses enwebu;

(d) argraffu neu gynhyrchu fel arall y papurau pleidleisio;

(e) argraffu neu gynhyrchu fel arall neu brynu deunyddiau pleidleisio drwy'r post;

(f) argraffu neu gynhyrchu fel arall gardiau pleidleisio, a threfnu i'w dosbarthu;

(g) argraffu neu gynhyrchu fel arall yr holl hysbysiadau a dogfennau etholiad, a'u cyhoeddi;

(h) rhentu, gwresogi, goleuo, glanhau, addasu neu adfer unrhyw adeilad neu ystafell;

(i) darparu a chludo cyfarpar;

(j) darparu cyfarpar a meddalwedd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a chostau cysylltiedig;

(k) darparu diogelwch, gan gynnwys storio blychau pleidleisio, papurau pleidleisio a dogfennau gwirio yn ddiogel;

(l) cynnal y gwirio a'r cyfrif;

(m) darparu a chael hyfforddiant;

(n) darparu deunyddiau ysgrifennu a thalu costau postio, ffonio, argraffu, cyfieithu a bancio a chostau eitemau amrywiol eraill.

(3) Caiff swyddog canlyniadau adennill treuliau yr eir iddynt o ganlyniad i'r angen i gydymffurfio â deddfiad sy'n ymwneud â'r coronafeirws neu i ddilyn canllawiau sy'n ymwneud â'r coronafeirws a ddyroddir gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys—

(a) penodi a thalu personau i gynorthwyo i orfodi rheoliadau'r coronafeirws;

(b) argraffu neu gynhyrchu fel arall arwyddion sy'n ymwneud â'r coronafeirws;

(c) cyfarpar diogelu personol ar gyfer personau sy'n cynorthwyo'r swyddog canlyniadau etholaethol a'r gweinyddwyr etholiadol;

(d) cynhyrchion glanhau ychwanegol yn yr orsaf bleidleisio a lleoliadau cyfrif;

(c) in respect of coronavirus expenses only, the total amount in column 3(b) in the table in Schedule 1.

(2) A returning officer may recover standard expenses incurred for, or in connection with—

(a) the appointment and payment of persons to assist the constituency returning officer;

(b) travel and overnight subsistence for the constituency returning officer and any person appointed to assist the constituency returning officer;

(c) the costs of the nomination process;

(d) printing or otherwise producing the ballot papers;

(e) printing or otherwise producing or purchasing postal vote stationery;

(f) printing or otherwise producing, and arranging for the delivery of, poll cards;

(g) printing or otherwise producing and publishing all election notices and documents;

(h) renting, heating, lighting, cleaning, adapting or restoring any building or room;

(i) providing and transporting equipment;

(j) providing information and communications technology equipment and software and associated costs;

(k) providing security, including secure storage of ballot boxes, ballot papers and verification documents;

(l) conducting the verification and the count;

(m) providing and receiving training;

(n) providing stationery and meeting postage, telephone, printing, translation and banking costs and the costs of other miscellaneous items.

(3) A returning officer may recover expenses incurred as a result of the need to comply with an enactment relating to coronavirus or to follow guidance relating to coronavirus issued by the Welsh Ministers, including—

(a) the appointment and payment of persons to assist with enforcing coronavirus regulations;

(b) printing or otherwise producing coronavirus related signage;

(c) personal protective equipment for persons assisting the constituency returning officer and electoral administrators;

(d) additional cleaning products at the polling station and count venues;

(e) costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag angen i estyn y cyfnod dilysu a chyfrif oherwydd mesurau'r coronafeirws;

(f) hyfforddiant ar reoliadau'r coronafeirws.

**Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy am etholiad rhanbarthol i'r Senedd a ymleddir**

**7.** Y cyfanswm cyffredinol mwyaf y caiff swyddog canlyniadau rhanbarthol ei adennill am wasanaethau a ddarperir a threuliau yr eir iddynt ar gyfer etholiad rhanbarthol i'r Senedd a ymleddir, neu mewn cysylltiad ag etholiad o'r fath, yw'r swm a restrir yng ngholofn 4 o'r tabl yn Atodlen 2.

**Y cyfanswm mwyaf sy'n adenilladwy am wasanaethau a ddarperir mewn etholiad rhanbarthol i'r Senedd a ymleddir**

**8.**—(1) Ni chaiff y cyfanswm y caiff swyddog canlyniadau rhanbarthol ei adennill am wasanaethau a ddarperir ar gyfer etholiad rhanbarthol i'r Senedd a ymleddir, neu mewn cysylltiad ag etholiad o'r fath, fod yn fwy na'r swm a restrir ar gyfer pob rhanbarth yng ngholofn 2 o'r tabl yn Atodlen 2.

(2) Rhaid i unrhyw wasanaethau a ddarperir fod ar gyfer y canlynol neu mewn cysylltiad â'r canlynol—

(a) gwneud trefniadau ar gyfer yr etholiad;

(b) cynnal yr etholiad;

(c) cyflawni holl ddyletswyddau'r swyddog canlyniadau rhanbarthol a'r gweinyddwr etholiadol mewn cysylltiad â'r etholiad.

**Y cyfanswm mwyaf sy'n adenilladwy am dreuliau yr eir iddynt mewn etholiad rhanbarthol i'r Senedd a ymleddir**

**9.**—(1) Ni chaiff y cyfanswm y caiff swyddog canlyniadau rhanbarthol ei adennill am dreuliau yr eir iddynt ar gyfer etholiad rhanbarthol i'r Senedd a ymleddir, neu mewn cysylltiad ag etholiad o'r fath, fod yn fwy na'r swm a restrir ar gyfer pob rhanbarth yng ngholofn 3 o'r tabl yn Atodlen 2.

(2) Rhaid i unrhyw dreuliau yr eir iddynt fod ar gyfer y canlynol neu mewn cysylltiad â'r canlynol—

(a) penodi a thalu personau i gynorthwyo'r swyddog canlyniadau rhanbarthol;

(b) treuliau teithio a chynhaliaeth dros nos y swyddog canlyniadau rhanbarthol ac unrhyw berson a benodir i gynorthwyo'r swyddog canlyniadau rhanbarthol;

(c) costau'r broses enwebu;

(d) argraffu neu gynhyrchu fel arall hysbysiadau etholiad, a'u cyhoeddi;

(e) additional costs associated with a need to extend the verification and count period due to coronavirus measures;

(f) training on coronavirus regulations.

**Overall maximum recoverable amount for a contested Senedd regional election**

**7.** The overall maximum amount a regional returning officer may recover for services rendered and expenses incurred for, or in connection with, a contested Senedd regional election is the amount listed in column 4 of the table in Schedule 2.

**Maximum recoverable amount for services rendered at a contested Senedd regional election**

**8.**—(1) The total amount a regional returning officer may recover for services rendered for, or in connection with, a contested Senedd regional election must not exceed the amount listed for each region in column 2 of the table in Schedule 2.

(2) Any services rendered must be for, or in connection with—

(a) making arrangements for the election;

(b) conducting the election;

(c) discharging all of the regional returning officer's and electoral administrator's duties in respect of the election.

**Maximum recoverable amount for expenses incurred at a contested Senedd regional election**

**9.**—(1) The total amount a regional returning officer may recover for expenses incurred for, or in connection with, a contested Senedd regional election must not exceed the amount listed for each region in column 3 of the table in Schedule 2.

(2) Any expenses incurred must be for, or in connection with—

(a) the appointment and payment of persons to assist the regional returning officer;

(b) travel and overnight subsistence for the regional returning officer and any person appointed to assist the regional returning officer;

(c) the costs of the nomination process;

(d) printing or otherwise producing and publishing election notices;

(e) argraffu neu gynhyrchu fel arall y papurau pleidleisio;

(f) darparu deunyddiau ysgrifennu a thalu costau postio, ffonio, argraffu, cyfieithu a bancio a chostau eitemau amrywiol eraill.

**Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy am etholiad etholaethol i'r Senedd nas ymleddir**

**10.** Y cyfanswm cyffredinol mwyaf y caiff swyddog canlyniadau etholaethol ei adennill am wasanaethau a ddarperir a threuliau yr eir iddynt ar gyfer etholiad etholaethol i'r Senedd nas ymleddir, neu mewn cysylltiad ag etholiad o'r fath, yw £2,000.00 (dwy fil o bunnoedd).

**Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy mewn etholiad rhanbarthol i'r Senedd nas ymleddir**

**11.** Y cyfanswm cyffredinol mwyaf y caiff swyddog canlyniadau rhanbarthol ei adennill am wasanaethau a ddarperir a threuliau yr eir iddynt mewn etholiad rhanbarthol i'r Senedd nas ymleddir, neu mewn cysylltiad ag etholiad o'r fath, yw £500.00 (pum can punt).

(e) printing or otherwise producing the ballot papers;

(f) providing stationery and meeting postage, telephone, printing, translation and banking costs of the other miscellaneous items.

**Overall maximum recoverable amount for an uncontested Senedd constituency election**

**10.** The overall maximum amount a constituency returning officer may recover for services rendered and expenses incurred for, or in connection with, an uncontested Senedd constituency election is £2,000.00 (two thousand pounds).

**Overall maximum recoverable amount at an uncontested Senedd regional election**

**11.** The overall maximum amount a regional returning officer may recover for services rendered and expenses incurred for, or in connection with, an uncontested Senedd regional election is £500.00 (five hundred pounds).

*Julie James*

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
12 Mawrth 2021

Minister for Housing and Local Government, one of the Welsh Ministers
12 March 2021

# ATODLEN 1

Erthyglau 4, 5 a 6

## Y cyfansymiau sy'n adenilladwy am wasanaethau a ddarperir a threuliau yr eir iddynt mewn etholiad etholaethol i'r Senedd a ymleddir

| *1.* *Etholaeth y Senedd* | *2.* *Y cyfanswm am wasanaethau a ddarperir gan weinyddwyr etholiadol* | *3.* *Y cyfanswm am dreuliau yr eir iddynt* (a) Treuliau safonol | (b) Treuliau sy'n ymwneud â'r coronafeirws | *4.* *Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy* |
|---|---|---|---|---|
| Aberafan | £5,500 | £89,802 | £34,280 | £129,582 |
| Aberconwy | £5,500 | £84,494 | £25,469 | £115,463 |
| Alun a Glannau Dyfrdwy | £5,500 | £92,571 | £28,577 | £126,648 |
| Arfon | £5,500 | £72,411 | £30,241 | £108,152 |
| Blaenau Gwent | £8,500 | £96,844 | £43,264 | £148,608 |
| Bro Morgannwg | £8,500 | £179,906 | £57,551 | £245,957 |
| Brycheiniog a Sir Faesyfed | £5,500 | £115,649 | £54,345 | £175,494 |
| Caerffili | £5,500 | £90,619 | £40,342 | £136,461 |
| Canol Caerdydd | £4,000 | £104,942 | £32,114 | £141,056 |
| Castell-nedd | £5,500 | £95,552 | £38,075 | £139,127 |
| Ceredigion | £8,500 | £96,167 | £44,117 | £148,784 |
| Cwm Cynon | £4,500 | £69,232 | £29,003 | £102,735 |
| De Caerdydd a Phenarth | £4,000 | £133,772 | £46,037 | £183,809 |
| De Clwyd | £5,500 | £88,334 | £35,973 | £129,807 |
| Delyn | £5,500 | £94,692 | £34,769 | £134,961 |
| Dwyfor Meirionnydd | £5,500 | £85,181 | £47,618 | £138,299 |

# SCHEDULE 1

Articles 4, 5 and 6

## Total recoverable amounts for services rendered and expenses incurred at a contested Senedd constituency election

| *1.* *Senedd constituency* | *2.* *Total amount for services rendered by electoral administrators* | *3.* *Total amount for expenses incurred* (a) Standard expenses | (b) Coronavirus related expenses | *4.* *Overall maximum recoverable amount* |
|---|---|---|---|---|
| Aberavon | £5,500 | £89,802 | £34,280 | £129,582 |
| Aberconwy | £5,500 | £84,494 | £25,469 | £115,463 |
| Alyn and Deeside | £5,500 | £92,571 | £28,577 | £126,648 |
| Arfon | £5,500 | £72,411 | £30,241 | £108,152 |
| Blaenau Gwent | £8,500 | £96,844 | £43,264 | £148,608 |
| Brecon and Radnorshire | £5,500 | £115,649 | £54,345 | £175,494 |
| Bridgend | £5,500 | £101,849 | £23,525 | £130,874 |
| Caerphilly | £5,500 | £90,619 | £40,342 | £136,461 |
| Cardiff Central | £4,000 | £104,942 | £32,114 | £141,056 |
| Cardiff North | £4,000 | £116,467 | £36,027 | £156,494 |
| Cardiff South and Penarth | £4,000 | £133,772 | £46,037 | £183,809 |
| Cardiff West | £4,000 | £113,014 | £37,061 | £154,075 |
| Carmarthen East and Dinefwr | £5,500 | £128,952 | £52,915 | £187,367 |
| Carmarthen West and South Pembrokeshire | £5,500 | £127,483 | £46,788 | £179,771 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dwyrain Abertawe | £4,500 | £82,483 | £29,868 | £116,851 |
| Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr | £5,500 | £128,952 | £52,915 | £187,367 |
| Dwyrain Casnewydd | £5,500 | £76,472 | £31,567 | £113,539 |
| Dyffryn Clwyd | £8,500 | £100,859 | £27,566 | £136,925 |
| Gogledd Caerdydd | £4,000 | £116,467 | £36,027 | £156,494 |
| Gorllewin Abertawe | £4,500 | £89,047 | £28,685 | £122,232 |
| Gorllewin Caerdydd | £4,000 | £113,014 | £37,061 | £154,075 |
| Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro | £5,500 | £127,483 | £46,788 | £179,771 |
| Gorllewin Casnewydd | £5,500 | £85,721 | £34,332 | £125,553 |
| Gorllewin Clwyd | £5,500 | £108,212 | £39,801 | £153,513 |
| Gŵyr | £4,500 | £86,872 | £33,987 | £125,359 |
| Islwyn | £5,500 | £82,158 | £36,736 | £124,394 |
| Llanelli | £5,500 | £117,654 | £41,205 | £164,359 |
| Merthyr Tudful a Rhymni | £8,500 | £106,517 | £47,452 | £162,469 |
| Mynwy | £8,500 | £119,225 | £52,863 | £180,588 |
| Ogwr | £5,500 | £96,521 | £31,272 | £133,293 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £5,500 | £101,849 | £23,525 | £130,874 |
| Pontypridd | £4,500 | £81,640 | £33,924 | £120,064 |
| Preseli Sir Benfro | £5,500 | £127,309 | £48,611 | £181,420 |
| Rhondda | £4,500 | £78,287 | £34,049 | £116,836 |
| Sir Drefaldwyn | £5,500 | £75,890 | £38,869 | £120,259 |
| Torfaen | £8,500 | £103,341 | £44,374 | £156,215 |
| Wrecsam | £5,500 | £75,840 | £24,604 | £105,944 |
| Ynys Môn | £8,500 | £95,849 | £40,405 | £144,754 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ceredigion | £8,500 | £96,167 | £44,117 | £148,784 |
| Clwyd South | £5,500 | £88,334 | £35,973 | £129,807 |
| Clwyd West | £5,500 | £108,212 | £39,801 | £153,513 |
| Cynon Valley | £4,500 | £69,232 | £29,003 | £102,735 |
| Delyn | £5,500 | £94,692 | £34,769 | £134,961 |
| Dwyfor Meirionnydd | £5,500 | £85,181 | £47,618 | £138,299 |
| Gower | £4,500 | £86,872 | £33,987 | £125,359 |
| Islwyn | £5,500 | £82,158 | £36,736 | £124,394 |
| Llanelli | £5,500 | £117,654 | £41,205 | £164,359 |
| Merthyr Tydfil and Rhymney | £8,500 | £106,517 | £47,452 | £162,469 |
| Monmouth | £8,500 | £119,225 | £52,863 | £180,588 |
| Montgomeryshire | £5,500 | £75,890 | £38,869 | £120,259 |
| Neath | £5,500 | £95,552 | £38,075 | £139,127 |
| Newport East | £5,500 | £76,472 | £31,567 | £113,539 |
| Newport West | £5,500 | £85,721 | £34,332 | £125,553 |
| Ogmore | £5,500 | £96,521 | £31,272 | £133,293 |
| Pontypridd | £4,500 | £81,640 | £33,924 | £120,064 |
| Preseli Pembrokeshire | £5,500 | £127,309 | £48,611 | £181,420 |
| Rhondda | £4,500 | £78,287 | £34,049 | £116,836 |
| Swansea East | £4,500 | £82,483 | £29,868 | £116,851 |
| Swansea West | £4,500 | £89,047 | £28,685 | £122,232 |
| Torfaen | £8,500 | £103,341 | £44,374 | £156,215 |
| Vale of Clwyd | £8,500 | £100,859 | £27,566 | £136,925 |
| Vale of Glamorgan | £8,500 | £179,906 | £57,551 | £245,957 |
| Wrexham | £5,500 | £75,840 | £24,604 | £105,944 |
| Ynys Môn | £8,500 | £95,849 | £40,405 | £144,754 |

# ATODLEN 2

Erthyglau 7, 8 a 9

## Y cyfanswm sy'n adenilladwy am wasanaethau a ddarperir a threuliau yr eir iddynt mewn etholiad rhanbarthol i'r Senedd a ymleddir

| *1. Rhanbarth Etholiadol y Senedd* | *2. Y cyfanswm am wasanaethau a ddarperir gan weinyddwyr etholiadol* | *3. Y cyfanswm am dreuliau yr eir iddynt* | *4. Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy* |
|---|---|---|---|
| Canol De Cymru | £2,500 | £20,665 | £23,165 |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | £2,500 | £17,528 | £20,028 |
| Dwyrain De Cymru | £2,500 | £19,084 | £21,584 |
| Gogledd Cymru | £2,500 | £18,795 | £21,295 |
| Gorllewin De Cymru | £2,500 | £16,364 | £18,864 |

# SCHEDULE 2

Articles 7, 8 and 9

## Total recoverable amounts for services rendered and expenses incurred at a contested Senedd regional election

| *1. Senedd Electoral Region* | *2. Total amount for services rendered by electoral administrators* | *3. Total amount for expenses incurred* | *4. Overall maximum recoverable amount* |
|---|---|---|---|
| Mid and West Wales | £2,500 | £17,528 | £20,028 |
| North Wales | £2,500 | £18,795 | £21,295 |
| South Wales Central | £2,500 | £20,665 | £23,165 |
| South Wales East | £2,500 | £19,084 | £21,584 |
| South Wales West | £2,500 | £16,364 | £18,864 |

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-20781-1

£6.90

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2021/315